



## Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd - Polisi Preifatrwydd

Bydd y polisi preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn defnyddio'r data personol a gasglwn gennych pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan neu wasanaeth i gymryd rhan yn ein gweithgareddau.

Mae Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn rhan o Gyngor Caerdydd, sy'n Rheolwr Data at ddibenion y data a gesglir. Prosesir yr holl ddata personol yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

### Pa ddata rydym yn ei gasglu?

Mae Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn casglu'r data canlynol:

- Gwybodaeth adnabod, gan gynnwys eich enw a'ch dyddiad geni
- Manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad cartref.
- Enw a rhif cyswllt eich cyswllt argyfwng enwebedig
- Gwybodaeth am eich hanes iechyd a meddygol, sy'n cynnwys gwybodaeth a roddwch am gyflyrau meddygol ac alergeddau sydd gennych ar hyn o bryd.
- Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'ch cyfranogiad yn ein gweithgareddau

Caiff eich gwybodaeth ei chasglu a'i phrosesu at ddiben hwyluso'r gwaith o gyflawni ein gweithgareddau yr ydych wedi gofyn i gymryd rhan ynddynt. Bydd eich data hefyd yn cael ei brosesu i gydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch lle bo hynny'n berthnasol.

### Sut rydym yn casglu eich data?

Chi, yn uniongyrchol, sy'n darparu i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yr holl ddata a gasglwn. Rydym yn casglu data a phrosesu data pan fyddwch yn:

- Llenwch ffurflen i gymryd rhan yn un o'n gweithgareddau.
- Archebu gweithgareddau drwy ein partneriaid, gan gynnwys **Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
- Cofrestru ar-lein drwy ein gwefan

Pan fyddwch yn cofrestru drwy ein gwefan, rydym yn defnyddio cwmni trydydd parti o'r enw Eola i brosesu cofrestradau ac archebion gweithgareddau. Mae Eola yn Rheolwr Data ar wahân i Gyngor Caerdydd. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Eola yn prosesu data personol, gweler eu Polisi Preifatrwydd yma: <https://eola.co/privacy-policy>



## Sut byddwn yn defnyddio eich data?

- Mae Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn casglu eich data at y dibenion canlynol:
- i brosesu archebion ar gyfer Gweithgareddau rydych wedi'u gwneud gyda ni
- i'ch atgoffa am eich archeb gyda ni
- i'ch hysbysu am unrhyw newidiadau i'ch archeb, diweddariadau i'n telerau neu unrhyw newidiadau eraill i'n gwasanaethau a allai effeithio arnoch
- i gysylltu â chi mewn perthynas ag unrhyw ymholiad rydych yn ei anfon atom
- i'n galluogi i gysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad mewn argyfwng
- i sicrhau y rhoddir triniaeth feddygol neu gymorth cyntaf rydych yn ei dderbyn yn ein cyfleusterau yn unol ag unrhyw wybodaeth feddygol a roddwch i ni
- i gadw cofnodion o ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn ymwneud â Gweithgareddau
- i hwyluso datblygu cynnyrch, i weithredu, cynnal a chadw a gwella ein gwasanaethau, Safle a Gweithgareddau
- i fonitro sut mae ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn gweithio ac i'n galluogi i wella eu gwybodaeth a'r ffordd maen nhw'n gweithio
- i ddadansoddi data a gesglir gan gwcis ar ein Gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, mewn ffordd ddienw, i wirio defnydd a thueddiadau, ac i gynllunio ymgyrchoedd marchnata yn y dyfodol

## Gyda phwy rydym yn rhannu eich data?

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r partïon canlynol:

- efallai y byddwn yn datgelu eich gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cynorthwyo gyda'n gweithgareddau busnes fel ein darparwyr telemateg, darparwyr gwasanaethau talu, darparwyr dosbarthu telemateg, darparwyr cynnal IT, darparwyr cymorth IT, darparwyr meddalwedd neu wasanaethau cwmwl a ddefnyddir gennym ni, cwmnïau cyfrifyddu, cydymffurfio a chyfreithiol
- byddwn yn datgelu eich data i asiantaethau gorfodi'r gyfraith os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith, gorchymyn llys neu ein rheoleiddwyr, neu os oes angen, i sefydlu, arfer neu amddiffyn ein hawliau cyfreithiol, gan gynnwys os ydym yn amau twyll neu ymdrechion i dwyllo



## **Cadw eich gwybodaeth yn ddiogel**

Mae Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn defnyddio mesurau diogelu ffisegol, electronig a gweithdrefnol technegol a threfniadol yn unol ag arfer da yn y diwydiant i ddiogelu eich gwybodaeth a gesglir yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, difrod, dinistr, newid neu ddatgelu damweiniol.

## **Cadw eich data personol**

Bydd eich data personol yn cael ei gadw ddim ond cyhyd ag y bo angen i gydymffurfio â gofynion rheoliadol a deddfwriaethol.

## **Marchnata**

Byddwn ond yn cysylltu â chi mewn perthynas â marchnata lle rydych wedi cofrestru i dderbyn negeseuon e-bost rheolaidd drwy ein gwefan [www.dgrhc.com](http://www.dgrhc.com). Gallwch optio allan o dderbyn gwybodaeth farchnata drwy glicio'r ddolen dad-danysgrifio ar waelod yr e-byst.

Pan fyddwch yn ymateb i un o'n hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol drwy glicio dolenn sy'n mynd â chi at ein Safle, byddwn yn tracio'r gweithgaredd hwnnw o gwci arbennig neu tag y mae'r platfform cyfryngau cymdeithasol yn ei ddefnyddio ac yn adrodd i'n hoffer dadansoddi.

Mae'n bosibl y bydd y Safle yn cynnwys dolenni i wefannau neu appiau ein partneriaid neu drydydd partion. Sylwer, os byddwch yn dilyn unrhyw un o'r dolenni hyn, bydd gan y gwefannau, yr appiau a'r gwasanaethau a ddarperir drwyddynt eu polisiau preifatrwydd a'u telerau defnyddio eu hunain. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am eu polisiau preifatrwydd a'u telerau defnyddiol, nac am brosesau casglu a defnydd ar unrhyw ddata personol a wneir drwy'r gwefannau, appiau neu wasanaethau hyn. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn darllen y polisiau preifatrwydd a'r telerau defnydd perthnasol cyn darparu unrhyw ddata personol neu ddefnyddio'r gwefannau, appiau a gwasanaethau hyn.

## **Beth yw eich hawliau diogelu data?**

Hoffai Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd wneud yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'ch holl hawliau diogelu data. Mae gan bob defnyddiwr hawl i'r canlynol:

**Yr hawl i gael mynediad** – Mae gennych hawl i ofyn i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd am gopiau o'ch data personol.

**Yr hawl i gywiro** – Mae gennych hawl i ofyn i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd gywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd gwblhau'r wybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.



**Yr hawl i ddileu** – Mae gennych hawl i ofyn i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd ddileu eich data personol, dan rai amodau.

**Yr hawl i gyfyngu prosesu** – Mae gennych hawl i ofyn i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd gyfyngu prosesu eich data personol, dan rai amodau.

**Yr hawl i wrthwynebu prosesu** – Mae gennych yr hawl i wrthwynebu i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd brosesu eich data personol, dan rai amodau.

**Yr hawl i gludo data** – Mae gennych hawl i ofyn i Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd drosglwyddo'r data yr ydym wedi'i gasglu i sefydliad arall, neu'n uniongyrchol i chi, dan rai amodau.

### Tynnu eich cydsyniad yn ôl

Pan fôm yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu eich data, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg a gallwch wneud hynny drwy gysylltu â ni yn [info@ciww.com](mailto:info@ciww.com). Os ydych wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, gall hyn olygu na allwn ddarparu ein gwasanaethau i chi.

### Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth:

Ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data personol yn gyffredinol fydd un neu ragor o'r canlynol:

- Caniatâd, yr ydych wedi'i ddarparu pan fyddwch yn i) cwblhau ffurflen archebu, ffonio neu e-bostio i roi gwybodaeth i ni fel y gallwn reoli eich archeb Gweithgareddau a ii) yn rhoi gwybodaeth i ni, gan gynnwys yn ymwneud â'ch iechyd, fel y gallwn asesu a yw'n ddiogel i chi ymgymryd â'r Gweithgareddau.
- Pan fo angen i ni ymrwymo i gontract gyda chi, gan gynnwys rhoi dyfynbrisiau i chi, darparu ein gwasanaethau, prosesu eich taliad ac ymateb i ymholiadau a wnaed gennych.
- Ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddynt, megis ein rhwymedigaeth gyfreithiol ar Iechyd a Diogelwch.
- Pan fo angen diogelu eich buddiannau hanfodol, megis mewn argyfwng meddygol.
- At ddibenion hyrwyddo ein buddiannau cyfreithiol, gan gynnwys o ran gwella ein gwasanaethau

### Polisiau preifatrwydd gwefannau eraill

Mae gwefan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn cynnwys dolenni at wefannau eraill. Dim ond i'n gwefan ni y mae ein polisi preifatrwydd yn berthnasol, felly os byddwch yn clicio ar ddolen i wefan arall, dylech ddarllen eu polisi preifatrwydd nhw.



## Newidiadau i'n polisi preifatrwydd



Mae Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn adolygu ei bolisi preifatrwydd yn rheolaidd ac yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 08.02.2021

### Sut i gysylltu â ni

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am bolisiau preifatrwydd Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd neu'r data rydym yn ei gadw amdanoch chi, neu os hoffech arfer un o'ch hawliau diogelu data, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bost [diogeludata@caerdydd.gov.uk](mailto:diogeludata@caerdydd.gov.uk) neu drwy'r post.

### Swyddog Diogelu Data

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth  
Neuadd y Sir  
Glanfa'r Iwerydd  
Caerdydd  
CF10 4UW

### Sut i gysylltu â'r awdurdod priodol

Os hoffech gyflwyno cwyn neu os teimlwch nad yw Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd wedi mynd i'r afael â'ch pryder mewn modd boddhaol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ei gwefan <https://ico.org.uk/concerns/getting/> neu drwy ffonio 0303 123 1113.